# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (243)

**Dyddiad: Dydd Mercher 2 Chwefror 2011**
**Amser: 13.30**

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl.

**.......................................**

### 14.12
### Eitem 2: Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 4. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 2, 3 ac 8 gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio.

**.......................................**

### 15.04
### Eitem 3: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 16.8

**NDM4652 Jeff Cuthbert (Caerffili)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.8, yn cymeradwyo argymhelliad adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.......................................**

### 15.05
### Eitem 4: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 'Darparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu'

**NDM4650 Helen Mary Jones (Llanelli)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, "Darparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Tachwedd 2010.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Dirprwy Weinidog dros Blant i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.......................................**

**15.52**
**Eitem 5: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4651 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi dinasyddion wrth galon llywodraeth leol drwy gynnwys cymunedau yn fwy wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 30 | 47 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi dinasyddion yn y canol wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 17 | 48 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, yn ogystal â chael eu cynnwys yn fwy wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, y dylid ymgynghori â dinasyddion, a dylid eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau posibl i uno awdurdodau lleol, oherwydd gallai hyn gael effaith ddramatig ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 29 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4651**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi dinasyddion yn y canol wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 17 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

.......................................

**16.43**
**Eitem 6: Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**NDM4653 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi neilltuo amser yn ystod busnes y llywodraeth i ymateb i'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad PISA, ac yn y cyhoeddiad bod y bwlch gwariant rhwng Cymru a Lloegr yn cynyddu.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno Premiwm Disgybl i helpu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Gellir gweld yr adroddiad PISA drwy ddilyn y linc canlynol:

http://www.nfer.ac.uk/nfer/publications/NPDZ02/NPDZ02_home.cfm?publicationID=550&title=PISA%202009:%20Achievement%20of%2015-year-olds%20in%20Wales

Gellir gweld y cyhoeddiad am y bwlch cyllido cynyddol drwy ddilyn y linc canlynol:

http://cymru.gov.uk/docs/statistics/2011/110126sb42011en.pdf (PDF) (Saesneg yn unig)

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 31 | 48 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai cyllido ysgolion yn uniongyrchol yn ailgyfeirio adnoddau i wasanaethau addysg rheng flaen ac yn dechrau cau'r bwlch cyllido cynyddol rhwng Cymru a Lloegr.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 36 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai datganoli pwerau i ysgolion yn arwain at wella safonau addysg.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 31 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

.......................................

## 17.53
## Cyfnod pleidleisio

.......................................

## 17.55
## Eitem 7: Dadl Fer

**NDM4649 Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Achub yr achubwyr – dyfodol darpariaeth gwylwyr y glannau yng Nghymru.

**Daeth y cyfarfod i ben am 18.20.**

.......................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 8 Chwefror 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**